



CYNHYRCHWYR CIG OEN AC EIDION CYMRU CYF

CYLCH *lythyr*

GWANWYN 2023



Ffermwyr sy'n Aelodau o WLBP yn arwain y ffordd o ran deall eu Defnydd o Wrthfotigau

Mae'r gyfrifiannell defnydd gwrthficrobaidd (AMU) arloesol a ddatblygwyd gan Gynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru (WLBP) yn arwain y DU o ran casglu data gwrthfotigau.

Ers gwanwyn 2022, mae WLBP wedi gofyn i'w aelodau weithio gyda'u milfeddyg i gasglu data ar eu defnydd o wrthfotigau gan ddefnyddio ei gyfrifiannell AMU ar y we. Mae'r broses yn casglu data o'r gwrthfotigau a ragnodwyd gan filfeddygon gyda data ar niferoedd stoc ar y fferm i gyfrifo'r defnydd cyfartalog o wrthfotigau. Ychydig iawn o fewnbwn sydd ei angen gan aelodau i'r broses gan ei bod yn defnyddio data hygyrch sydd ar gael mewn manau eraill.

Ers lansio'r system, mae dros 5,000 o gyfrifiadau wedi'u casglu, gyda dros 2,500 o'r rheini wedi'u cofnodi yn 2023. Mae WLBP wedi bod yn hynod falch o'r ymateb cadarnhaol gan ffermwyr a'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru.

Yn ystod y chwe mis diwethaf, mae WLBP wedi bod yn gweithio ar y cyd â llawer o gadwyni cyflenwi cig coch a llaeth i'w cynorthwyo i ddeall y defnydd cyfartalog o wrthfotigau yn eu grwpiau priodol.


Mae'r cyfrifiadau a gasglwyd yn cynnwys ffermydd llaeth yn ogystal ag unedau eidion a defaid, felly mae'r data a werthuswyd yn ymdrin â chynhyrchu cig eidion, cig oen a llaeth. Mae'n siop un stop sy'n gallu cynhyrchu data ar gyfer mentrau cig oen, cig eidion a llaeth ar wahân fel y gall ffermydd cymysg ddarparu data y gall fod ei angen ar unrhyw gadwyn cyflenwi cig oen, cig eidion neu laeth, o dan reolaeth a chaniatâd y ffermwr mewn dull diogel.

Mae llawer o drafod ar hyn o bryd am ffermio cynaliadwy a beth mae hynny'n ei olygu. Gyda set ddata gynhwysfawr ar y defnydd o wrthfotigau, gall WLBP ddarparu gwybodaeth gywir am ddefnyddio meddyginiaeth yn gyfrifol ar draws sectorau da byw.

"Mae WLBP yn datblygu ei gronfa ddata ganolog ar gyfer gwybodaeth am y defnydd o wrthfotigau yng Nghymru," meddai Rheolwr Cyffredinol WLBP, Iestyn Tudur-Jones.

"Un o'n blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Gwarant Fferm Da Byw (FAWL) yw annog ffermwyr a milfeddygon i weithio gyda'i gilydd, nid yn unig i gynnal safonau iechyd a lles uchel ar gyfer da byw, ond i gynhyrchu'r dystiolaeth a all ddilysu unrhyw honiad y gallai fod angen i ni ei wneud ynghylch sut rydym yn cynhyrchu ein llaeth a'n cig coch," ychwanegodd Mr Tudur-Jones.

"Mae ein platfform AMU newydd yn rhan o'r strategaeth honno. Fodd bynnag, er ein bod wedi dod o hyd i ateb i gyfrifo'r defnydd o wrthfotigau ar ffermydd da byw




Cymru, mae hefyd yn bwysig ein bod yn defnyddio'r un model i gefnogi ffermwyr i ddatrys heriau eraill, fel materion amgylcheddol."

Mae milfeddyg y ffermwr yn gwneud y cyfrifiad yn ystod yr Adolygiad Iechyd a Lles Blynnyddol. Mae milfeddygon yn gweld manteision cyfrifo'r defnydd o wrthfotigau ochr yn ochr â'u hadolygiad, y gellir ei wneud i gyd ar-lein ar Borth Milfeddygon WLBP.


Un o'r milfeddygon yw Frances Jones o Filfeddygon Aeron.

Meddai, "Rydym ni ym Milfeddygon Aeron wedi bod yn defnyddio'r ffurflen adolygu iechyd a lles ar-lein ers dros flwyddyn. Diolch i'r hyfforddiant mewnol a'r gefnogaeth dros y ffôn gan WLBP, mae pob aelod o'r tîm milfeddygol sy'n ymwneud â chynllunio iechyd buchesi o ddydd i ddydd yn teimlo'n hyderus ac yn gymwys i lenwi'r ffurflen yn ddigidol. Mae hyn yn lleihau'r gwaith papur a gynhyrchir pan gaiff ei gwblhau'n uniongyrchol ar y sgrin a hefyd yn ffordd effeithlon iawn o anfon adolygiadau cyflawn i WLBP fel rhan o'u cynllun FAWL.

"Mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn o fewn y practis i gael un man canolog lle gellir ystyried a chael mynediad at yr holl adolygiadau blaenorol sy'n ymwneud â'r cleient hwnnw, wrth weithio ar yr adolygiad blynnyddol cyfredol.



Frances Jones
Milfeddygon Aeron



“Rydym wedi canfod bod cyflwyno cyfrifiannell AMU yn ddilyniant syml o’r adolygiad sylfaenol ac yn gweld bod y broses gam wrth gam o gasglu gwybodaeth yn ein helpu i greu darlun cyflawn o’r fenter, gan ein galluogi i fireinio ein cyngor i anghenion pob sector ar y fferm honno. Mae’r system yn ein galluogi i gynhyrchu data effeithiol gydag ychydig iawn o drafferth ar gyfer casglu gwrthfotigau. Mae’n arbed llawer o amser i ni wrth gynhyrchu’r casgliad gwrthfotigau ar gyfer ein cleientiaid llaeth, rhan hanfodol o’r Safonau Sicrwydd Llaeth.

“Mae’r system mor syml fel ein bod yn ceisio annog ein cleientiaid i ganiatáu mynediad i ni i gyflawni eu cynlluniau iechyd buchesi trwy’r porth hefyd, am lawer o’r rhesymau a nodwyd eisoes ac er hwylustod llwyr o gael dogfen “fyw” sy’n galluogi’r ffermwr a thîm y milfeddygon i gael mynediad ati, i ychwanegu/tynnu ohoni, i gael dogfen weithredol ar gyfer cynllunio a monitro iechyd y fuches.

“Mae agwedd gwerth am arian posibl y system i gynhyrchwyr WLBP yn enfawr, wrth i gadw cofnodion digidol ddod yn fwy hanfodol fyth. Mae’r ffaith y gall practis y milfeddyg helpu i gadw cofnodion digidol i’r cleient hefyd yn fonws enfawr, ac yn y tymor hir rydym yn teimlo y bydd y prosiect o fudd mawr i fentrau ffermio a milfeddygol yng Nghymru.”

Dywedodd Aled Davies, sy’n ffermio yng Nghaeo yn Sir Gaerfyrddin, “Wrth adolygu fy nghynllun iechyd blynyddol gyda’r milfeddyg, fe wnaethon nhw hefyd gyfrifo fy

Nefnydd Gwrthficrobaidd (AMU) ar yr un pryd. Roedd yn gyflym ac yn hawdd defnyddio eu cofnodion o feddyginiaethau a brynwyd i gyfrifo defnydd ar gyfer gwahanol ddsbarthiadau o stoc.”

Mae’r gallu i fesur y defnydd o wrthfotigau mewn ffordd safonol yn rhoi diwydiant ffermio Cymru mewn sefyllfa dda i ddarparu tystiolaeth ar y ffordd gyfrifol mae gwrthfotigau’n cael eu defnyddio ar ffermydd Cymru. Mae dadansoddiad cynnar o’r data ar gyfer eidion, defaid a llaeth sydd wedi’i goladu a’i ddadansoddi, yn awgrymu bod y defnydd yn y sectorau yn gyfrifol ac yn unol â thargedau gwirfoddol a awgrymwyd gan y diwydiant.

Bydd WLBP yn parhau i weithio gyda milfeddygon ac aelodau i gasglu’r defnydd o wrthfotigau yng Nghymru yn ystod 2023. Bydd WLBP yn cyhoeddi’r ffigurau ar gyfer defnydd gwrthficrobaidd ar gyfer y sectorau eidion, defaid a llaeth yng Nghymru yn ddiweddarach eleni. Bydd hyn yn galluogi’r diwydiant i ddeall y sefyllfa bresennol o ran defnydd a darparu gwybodaeth sy’n caniatáu i’r diwydiant barhau ag unrhyw welliannau yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am Gyfrifiannell AMU, cysylltwch â WLBP ar helathplan@wlbpc.co.uk neu drwy ffonio 01970 636688.



Aled Davies, Nantiwrch, Caio

Cynllun FAWL wedi’i gymeradwyo ar gyfer ardystiadau Tystysgrif Allforio i Ewrop a Gogledd Iwerddon

Bydd yn fusnes fel arfer i aelodau FAWL sydd eisiasu cwrdd â gofynion allforio newydd o dan Reoliad Iechyd Anifeiliaid yr UE (Rheoliad (UE) 2016/429), sy’n dechrau’n ddiweddarach eleni – gan fod aelodaeth o’r cynllun sicrwydd yn cydymffurfio â’r rheolau newydd.

Daw rheoliad newydd yr UE i rym o 13 Rhagfyr 2023 ac mae’n golygu bod yn rhaid i ffermydd sy’n cynhyrchu anifeiliaid neu gynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid neu gynhyrchion cenhedlol i’w hallforio i’r UE (neu symudiadau i Ogledd Iwerddon o dan amodau Protocol Gogledd Iwerddon) fod yn ddarostyngedig i ymweliadau milfeddygol ‘rheolaidd’.

Gan ein bod bellach yn ‘drydedd wlad’ (nad yw’n aelod o’r UE), mae’r rheoliadau newydd yn berthnasol, fel y

maent wrth allforio yn ehangach. Fodd bynnag, dim ond os ydynt yn darparu anifeiliaid neu gynhyrchion perthnasol i’w hallforio i’r UE neu symudiadau i Ogledd Iwerddon y mae angen i ffermwyr gydymffurfio â’r gofyniad hwn.

Mae WLBP yn falch o gadarnhau bod bod yn rhan o gynllun FAWL yn rhoi’r gallu i aelodau gydymffurfio â’r gofyniad newydd hwn gan fod y cynllun yn gymwys fel cynllun sicrwydd cydnabyddedig.

Rhaid i unrhyw un sy’n disgyn y tu allan i’r categori o fod yn rhan o gynllun sicrwydd cydnabyddedig ddefnyddio’r amser sydd ar gael i naill ai eithrio eu hanifeiliaid neu gynhyrchion o allforion UE, ymuno â chynllun gwarant fferm cydnabyddedig neu gael datganiad milfeddygol priodol.

Adroddiad y Cadeirydd 2023

Annwyl Gyd-aelod,

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy adroddiad blynyddol i chi unwaith eto. Ar y cyfan, roedd y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 unwaith eto yn flwyddyn gymharol gythryblus i gynhyrchwyr da byw yng Nghymru, gyda'r prisiau a dalwyd am ein hallbynnau, yn enwedig cig eidion a chig oen, yn gwella'n gyffredinol o gymharu â'r blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r economi fyd-eang yn parhau i fod yn ansicr, gan wynebu pwysau chwyddiant uchel a ysgogwyd gan y rhyfel yn Wcráin ac, fel y gwelwyd, codiadau digynsail mewn costau tanwydd ac ynni sy'n cael effaith ddramatig ar gostau mewnbynnau ffermydd, gyda phrisiau bwyd anifeiliaid a gwrtaith yn codi'n ddramatig. Mae chwyddiant bwyd wedi cynyddu'n ddramatig, sydd wedi gwella pris allbynnau ffermydd, fodd bynnag, mae hyn wedi'i liniaru gan y cynnydd sylweddol yn ein costau mewnbynnau.

Manteision bod yn aelod o FAWL:

- Mae WLBP yn ymdrechu i gryfhau hyder defnyddwyr trwy ddarparu sicrwydd o safonau fferm trwy Gynllun Cig Eidion a Chig Oen Gwarant Fferm Da Byw Cymru (FAWL).
- Fel aelod o FAWL, byddwch yn gallu marchnata eich da byw gyda'r sicrwydd y mae ardystiad FAWL yn ei roi a byddwch yn hyderus eich bod yn cyfrannu at well marchnata Cig Eidion Cymru a Chig Oen Cymru.
- O ganlyniad i'r gydnabyddiaeth a enillwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, rydych yn llai tebygol o gael eich asesu gan awdurdodau lleol mewn perthynas â bwyd anifeiliaid.
- Mae FAWL yn dod yn ddolen gyswllt bwysig yn y gadwyn gyflenwi, ac mae nifer cynyddol o broseswyr yn mynnu bod stoc yn cael ei gaffael o ffermydd FAWL. Mae FAWL yn rhoi cyfle i gynhyrchwyr ddarparu prawf o'u harbenigedd a'u huniondeb.
- Mae gan aelodau FAWL fynediad i gofnodion fferm ar-lein – llwyfan cofnodi meddalwedd 'ffermwr-gyfeillgar' y gallwch chi ei gysylltu â BCMS/EID Cymru i gofnodi symudiadau. Mae holl dempledi FAWL ar gael, gan gynnwys cofnodion meddyginiaeth. Dyma'r siop un stop ar gyfer cadw cofnodion i ffermwyr Cymru! Rydym hefyd yn darparu cefnogaeth i greu eich cofnodion fferm - mae pawb ar eu hennill!
- Mae cydnabyddiaeth trwy'r Ymgyrch dros Ddefnyddio Gwenwyn Llygod yn Gyfrifol (CRRU) yn golygu nad oes angen i aelodau FAWL ennill cymwysterau ychwanegol i brynu gwenwyn llygod gwrthgeulo ail genhedlaeth (gwenwyn llygod mawr).
- Mae adolygiad iechyd a lles blynyddol, ynghyd â'r cyfrifiad defnydd gwrthficrobaidd (AMU), yn darparu gwybodaeth dechnegol ac ymarferol ar statws iechyd eich buches/diadell.
- Mae FAWL yn gymwys fel cynllun sicrwydd cydnabyddedig sy'n caniatáu i aelodau gydymffurfio â'r gofyniad newydd am ardystiadau Tystysgrif Allforio i Ewrop a Gogledd Iwerddon.



Ers i ni adael yr Undeb Ewropeaidd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chynlluniau'n ddiweddar i gyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fel olynydd i Daliad Sengl (SFP) yr UE. Mae wedi'i dargedu at ddatblygu agwedd wyrddach tuag at amaethyddiaeth gyda newid o'n sail hanesyddol bresennol ar gyfer cyfrifo

SFP i gynllun newydd yn seiliedig ar gynaliadwyedd. Nid oes fawr o amheuaeth y bydd y trefniant newydd hwn yn heriol i lawer, ac mae'n debygol y bydd y swm o arian sydd ar gael yn cael ei leihau. Bydd cyflwyno Rheoliadau Adnoddau Dŵr 2021 hynod heriol ar gyfer Cymru gyfan yn creu heriau pellach. Felly, fel diwydiant, rhaid i ni beidio â bod yn hunanbodlon. Rhaid i ni barhau i fuddsoddi yn ein dyfodol a gwella marchnadwyedd ein cynnyrch. Mae ein Cynllun Gwarant Fferm hynod gystadleuol yn parhau i fod yn offeryn cryf i ni gyflawni hynny, yn enwedig pan fydd defnyddwyr yn dod yn ddetholus iawn yn eu pryniannau, yn enwedig y rheiny o'r ansawdd uchaf (sef, wrth gwrs, lle mae ein cynhyrchion Cig Oen ac Eidion Cymru wedi'u lleoli).

Mae ein Hofferyn Cynllunio Iechyd Anifeiliaid ar y we a Meddalwedd Rheoli Fferm yn parhau i gael derbyniad da iawn, ac mae'r feddalwedd 'o'r radd flaenaf' hon ar gael heb unrhyw gost i chi fel aelod. Y cyfan sy'n rhaid i chi ei wneud yw cofrestru ar gyfer ei ddefnydd cyfrinachol trwy ymweld â'n gwefan www.wlbp.co.uk.

Mae WLBP yn falch o adrodd bod ei waith ar gasglu a dadansoddi data ar ddefnyddio gwrthfotigau a gweithio gyda bron pob milfeddyg anifeiliaid mawr ledled Cymru yn cael ei ganmol yn eang fel y cynllun blaenllaw yn y DU. Byddwn yn annog ein holl aelodau i fanteisio ar y cynllun arloesol hwn wrth i'r byd ddod yn fwy ymwybodol o'r bygythiad enfawr posibl i iechyd o Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR). Mae'r gadwyn gyflenwi yn y DU eisoes yn ymwneud yn fawr â'r mater AMR ac mae'n dechrau gofyn i'w cyflenwyr am sicrwydd ynghylch eu defnydd gwrthficrobaidd (AMU). Mae ein cronfa ddata AMU mewn sefyllfa dda iawn i gwrdd â'r her hon.

Ym mis Gorffennaf 2022, diweddarodd WLBP ei Safonau Fferm, sydd wedi'u lanlwytho ar ein gwefan ac sydd ar gael i'n holl aelodau. Mae'n hanfodol ein bod yn cadw ar y blaen i sicrhau bod gan ein haelodau'r cyfleoedd marchnata mwyaf posibl ar gael iddynt yn y wlad hon a thramor. Ar hyn o bryd mae ein cynllun gwarant fferm "cystal ag y gall fod". Mae'n cydymffurfio'n llawn â'r holl safonau gwarant Ewropeaidd ac wedi'i achredu'n llawn gan Gymdeithas Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS).

Rwy'n falch o adrodd eto eleni ein bod yn cynnig y cynllun gwarant fferm mwyaf cost-effeithiol yn y DU yn gyson, ac mae'n braf nodi bod y gadwyn gyflenwi yn gwirio statws gwarant fferm ei chadwyn gyflenwi yn ddyddiol gan ddefnyddio ein gwiriwr ar-lein cyfrifiadurol soffistigedig. Dylai'r gweithgaredd hwn ddarparu tystiolaeth glir i'n



David Bebb Evans
Cadeirydd WLBP

haelodau o werth ein cynllun gwarant wrth gael mynediad at gyfleoedd yn y farchnad.

Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae ein Hadroddiad Blynyddol bellach wedi'i osod ar ein gwefan yn hytrach na'i argraffu a'i bostio i'n 7,000+ o aelodau cyfredol. Byddwn, wrth gwrs, yn anfon copi caled at unrhyw un sy'n gofyn am un. Gobeithiaf eich bod yn cytuno bod hwn yn benderfyniad synhwyrol, cost-effeithiol ac ystyriol o'r amgylchedd y byddwn yn ei ddefnyddio mwy. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i fy nghyd-aelodau o'r bwrdd am eu gwaith caled parhaus, eu cefnogaeth a'u teyrngarwch dros y flwyddyn, y staff sy'n gweinyddu'r cynllun yn eu modd effeithlon a dymunol a diolch i chi fel ein haelod am eich cefnogaeth barhaus. Rwy'n hyderus y byddwn yn gallu cynnig mwy o gyfleoedd marchnata ichi a phroffil risg is yn erbyn archwiliadau cydymffurfio statudol, a all fod yn ddrud, drwy gydnyddiaeth a enillir.

Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cyf (WLBP)

Detholiadau o Ddatganiad Ariannol y flwyddyn sy'n dod i ben 31/03/2022

Datganiad o Incwm Cynhwysfawr

	£000s	£000s
	2022	2021
Trosiant	1569	1438
Cost Gwerthu	1480	1341
Elw gros	89	96
Incwm Gweithredu Arall	292	11
Elw cyfanswm	381	107
Gweinyddiaeth a Chostau TG	301	136
Gwarged / (Diffyg Ariannol) Gweithredu	80	(29)
Treth ar Arian Dros Ben / (ad-daliad)	2	(1)
Gwarged / (Diffyg Ariannol) am y flwyddyn	78	(28)

Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol fel ar 31/03/2022

Asedau

Asedau Anghyfredol	42	169
Asedau Cyfredol		
Dyledwyr (yn disgyn o fewn un flwyddyn)	693	129
Arian yn y Banc	1077	1116
Cyfanswm Asedau	1812	1414

Ecwiti a Rhwymedigaethau

Ecwiti

Rhannu Cyfalaf	2	2
Enillion a gadwyd	740	662
Rhwymedigaethau		
Credydwyr (yn disgyn o fewn un flwyddyn)	1069	749
Treth wedi'i gohirio	1	1
Cyfanswm Ecwiti a Rhwymedigaethau	1812	1414

Gohirio o fewn llai na 24 awr – meddyliwch ddwywaith

Mae pawb sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth yn ymwybodol o'r pwysau a'r cyfyngiadau amser y mae'n rhaid i ffermwyr gadw atynt, ac mae terfynau amser i'w cyrraedd bob amser. Gall y pwysau i gwblhau a threfnu gweithgareddau arwain at anawsterau o ran cadw apwyntiadau sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw gydag aseswyr sy'n ymweld â'ch fferm. Mae yna adegau pan fydd argyfwng neu rywbeth allan o'ch rheolaeth yn digwydd sy'n golygu bod yn rhaid i aelodau ohirio eu hasesiad fferm ar fyr rybudd. Rydym yn derbyn bod yr amgylchiadau hyn yn anochel weithiau. Fodd bynnag, hoffem ei gwneud yn glir, os bydd asesiad fferm yn cael ei ohirio o fewn llai na 24 awr i'r asesiad heb reswm dilys, efallai y codir tâl arnoch chi am ohirio. Os oes angen i chi ohirio asesiad yr ydych eisoes wedi cytuno iddo, cysylltwch â'ch aseswr fferm neu'r swyddfa ardystio o leiaf 24 awr cyn dyddiad ac amser yr asesiad y cytunwyd arno.

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Fe'ch hysbysir y bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf yn cael ei gynnal yn rhithiol ar Teams ar 30/05/2023 am 1pm. Os hoffech dderbyn dolen ar gyfer Teams, cysylltwch â'r swyddfa.

Trafodir y canlynol a'u cymeradwyo os ystyrir hwy'n gymwys:

- 1 Ymddiheuriadau am absenoldeb
- 2 Derbyn adroddiad gan y cadeirydd, Mr David Bebb Evans
- 3 Derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2022*
- 4 Penodi cyfarwyddwyr – Mae Mr Wyn Evans yn ymddeol yn ôl y drefn ac yn gymwys ar gyfer ei ail-ethol**
- 5 Cymeradwyo Whittingham Riddell fel Cyfrifwyr Adrodd

* Mae copïau o'r cyfrifon blynyddol ar gael ar wefan y gymdeithas (www.wlbp.co.uk) neu i gael copi caled, cysylltwch â'r swyddfa ar 01970 636688

** Os hoffech wneud enwebiad i'r bwrdd, anfonwch enw a chyfeiriad yr aelod at: Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf, Blwch Post 8, Gorseland, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth wedi ei gefnogi gan lofnodion 10 aelod arall o Gynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf.



Arolwg Adborth Ymwrthedd i Wrthfotigau

Rydym yn chwilio am adborth ffermwyr ar y mater o Ymwrthedd i Wrthfotigau (AMR). Os ydych yn ffermio defaid neu wartheg yng Nghymru, llenwch yr arolwg hwn am gyfle i ennill £30.

Gellir dod o hyd i'r arolwg trwy'r cod QR canlynol:

Mae'r arolwg yn cael ei gynnal gan Miller Research, sydd wedi'u comisiynu i gyflawni gwerthusiad allanol o Arwain DGC; rhaglen sydd wedi'i chynllunio i fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn defaid a gwartheg drwy wella cyfnewid gwybodaeth o fewn y sector a dealltwriaeth o ymwrthedd gwrthficrobaidd.



Diwrnod ym mywyd Aseswr FAWL

Dyna neges wrth ein haseswyr ac ein swyddfa ardystio. Fel rhan o'r cynlluniau ardystio, o dro i dro rydym yn galw i'ch gweld a dyma pryd y gwnewch chi gwrdd ein haseswyr deallus a chymwys. Dros Gymru mae gennym tua 30 o aseswyr a dyma gip olwg i fywyd un o'n haseswyr profiadol sef, Emyr Williams sydd gweithio yng Ngogledd Gymru:

"Rwy'n dod o bentref bach Betws Gwerful Goch ger Corwen, yn briod gyda Glesni ac mae ganom bedair o ferched. Rwyf wedi bod yn aseswr cynllun FAWL ar Uned Gwarantyn ers 2015. Swydd rhan amser ydi hi imi, ar y cyd gyda ffermio lle rydym yn cadw defaid a biff.

Mae'r swydd wedi datblygu cryn dipyn yn ystod yr wyth mlynedd i mi fod wrth y gwaith. Pan ddechreuais roedd popeth yn cael ei wneud ar bapur, yr asesiadau yn cael eu hanfon allan i ni, ninnau yn eu cwblhau ai anfon yn ôl. Bellach fodd bynnag, mae popeth yn electronig gyda I-pad gan bob aseswr. Danfonir y gwaith allan i ni dros system ddigidol, lle gallwn drefnu asesiad penodol a lawr lwytho manylion y fferm honno. Trwy nodi eich cyfeiriad e-bost gallwn ar y pwynt yma ddanfôn manylion i gadarnhau eich asesiad yn syth. Yn ystod yr asesiad gallwn gwblhau'r adroddiad yn electronig, a chael eich llofnod.

Pan yn bosib rwy'n ceisio gwneud tri asesiad mewn diwrnod, un am tua 9.00yb wedyn tua 12.00yp ac yna tua 3.00yp, yn amlwg nid yw hyn yn bosib bob tro a rhaid bod yn barod i fod yn hyblyg. Rwy'n ceisio rhannu bob asesiad yn weddol gyfartal rhwng edrych yn ymarferol o gwmpas y fferm ac yna'r gwaith papur. Rwy'n gredwr mawr mewn ceisio gweld canran dda o stoc a sgwrsio gyda'r aelod wrth fynd o gwmpas gan deimlo yn aml iawn mae yma mae'r ffermwr yn fwyaf cyfforddus. Beth sydd yn bwysig yw dod i ddeall system y fferm yn dda, er mwyn gallu asesu yn deg.

Mae'n debyg mae trefnu apwyntiad i'r asesiad yw n o'r sialensiau mwyaf yn y fy ngwaith. Fel y rhan fwyaf o fusnesau bellach mae amaethyddiaeth ddim gwahanol yn y ffaith fod rhywun eisiau gwybod rhywbeth am y busnes drwy asesiad. Fel mae aelodau o'r cynllun yn gwybod daw'r gorchwyl hynny pob 18 mis. Fy neges i fel aseswr a chyd aseswyr ydy: **'Plis peidiwch â phoeni pan ddaw'r alwad ganom, pobol gyffredin ydym ni'**.

Rwyf bob amser yn ceisio amlinellu beth fyddaf angen ei weld, gan geisio tawelu unrhyw bryderon fydd gan yr aelod. Mae hyn yn digwydd yn aml pan mae unrhyw newidiadau o fewn y cynllun gyda'r aelod yn aml wedi clywed sôn am newid, ond efallai heb eu deall yn llawn. Rhaid cofio fod cyfle i gwblhau unrhyw argymhellion a godir am gyfnod ar ôl yr asesiad, gyda rhai i gael eu cwblhau erbyn yr asesiad nesaf.



Emyr Williams, FAWL Assessor

Rwyf wedi cwrdd â sawl cymeriad dros y blynyddoedd, a chael croeso gan y mwyafrif helaeth, un stori ddaw i'r cof oedd pan oeddwn yn cwblhau asesiad yn ardal Y Bala ac yn teithio yn y pick-up gyda'r ffermwr o un darn o dir i'r llall ger y dref. Roeddwn wedi bod allan i gau giât, ac ar ôl ail gychwyn cafodd y ffermwr ei stopio gan yr heddlu, nododd yn syth nod oedd yn gyrru rhy gyflym. Cytunodd y plismon cyn mynd ymlaen i roi dirwy i mi ar ffermwr am beidio â gwisgo gwregys!, gwers ddrud i'r ddau ohonom.

Rwyf wrth fy modd yn cael sgwrs gyda ffermwr gan obeithio eu bod yn fy ngweld yn deg ac yn

trin pawb yr un fath. Rwyf wedi gweld stoc o safon uchel iawn dros y blynyddoedd, a ffermwr syn gwneud eu gwaith gyda balchder mawr, yn wir, rwyf wedi dysgu nifer o arferion da sydd o gymorth i mi adref!

Mae'n wir dweud fod amaeth yn mynd i orfod goresgyn nifer o heriau yn y dyfodol wrth i bobl ymddiddori mwy yn ble a sut mae ei bwyd yn cael ei chynhyrchu.

Dwi'n sicr fydd ffermwr Cymru yn addasu fel rydym wedi gwneud dros y degawdau diwethaf i ymateb yn bositif i'r heriau yma. Mi fydd y cynllun FAWL yn chwarae rhan allweddol yn hyn drwy gadarnhau'r safonau yr ydym yn ffermio yng Nghymru.

Gai ddiolch i chi gyd am y croeso ar gydweithrediad rwyf wedi derbyn ar eich ffermydd dros y blynyddoedd."

Oeddech chi'n gwybod ein bod yn darparu ardystiad organig?



Mae Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru (WLBP) yn darparu ardystiad organig i gynhyrchwyr, proseswyr a mewnbynnau cymeradwy. Mae ein ffioedd yn gystadleuol ac mae trosglwyddo eich ardystiad organig atom ni o Gyrrff Rheoli eraill yn hawdd. Wrth wneud ein harchwiliadau organig, gallwn hefyd ddarparu archwiliadau ar y cyd ar gyfer FAWL sef y Cynllun Gwarant Fferm Da Byw, PWAB (Produced Without Antibiotics), archwiliadau'r Tractor Coch ar gyfer ffermydd Llaeth, archwiliadau cyfatebol y Soil Association ar gyfer moch a dofednod, ac Unedau Cwarantyn. Os hoffech gael sgwrs anffurfiol ynglŷn â Chynllun Organig Cymru, ffoniwch ni neu anfonwch e-bost at organic@wlbp.co.uk.

Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: Mapiau Risg mewn 3 cham hawdd!

O 1 Ionawr 2023, mae'n rhaid i bob fferm lle mae tail neu ddom organig yn cael ei wasgaru gael Map Risg cyfoes. Mae creu map yn syml; does ond angen map ar raddfa addas, e.e. 1:2,500, 1:5,000, neu 1:10,000, pinnau ysgrifennu lliw a'ch gwybodaeth o gaeau!

Er ei bod yn bosibl bod rhywfaint o'r wybodaeth ofynnol eisoes wedi'i chynnwys yn eich Cynllun Rheoli Tail, mae gan Fapiau Risg ofynion newydd.

Cam 1.- Ar y map, rhaid i chi ddangos y canlynol:-

- Pob cae, gyda'i arwynebedd mewn hectarau.
- Pob dŵr wyneb.
- Unrhyw dyllau turio, tarddellau neu ffynhonnau ar y daliad neu o fewn 50m i ffin y daliad.
- Ardaloedd â phriddoedd tywodlyd neu fas.
- Tir ag inclein sy'n fwy na 12 gradd - sy'n hafal i 20 gradd, neu "1 mewn 5".
- Tir o fewn 10m i ddŵr wyneb neu o fewn 50m i dwll turio, tarddell neu ffynnon.
- Draeniau tir (ac eithrio pibell anhydraidd sydd wedi'i selio).
- Safleoedd mewn caeau sy'n addas ar gyfer tomenni dros dro o unrhyw dail - os yw'r dull hwn o storio i'w ddefnyddio.
- Tir sydd â risg dŵr ffo isel os yw tir hwnnw i gael ei ddefnyddio wrth gyfrifo gofynion storio slyri. Tir risg isel yw tir sydd â llethr cyfartalog o lai na 3 gradd, nad oes ganddo draeniau tir (ac eithrio pibell anhydraidd sydd wedi'i selio) ac sydd o leiaf 50 metr oddi wrth gwrs dŵr neu ddyfrffos sy'n arwain at gwrs dŵr.

Cam 2. Dylech nodi (mewn coch) cyrsiau dŵr ac ardaloedd lle na allwch daenu - fel arfer 10m naill ochr i gwrs dŵr neu 50m o darddell, ffynnon neu dwll turio.

Gall defnyddio offer taenu manwl gywir - h.y. esgid lusgo, bar diferu, neu system chwistrellu alluogi i dail organig, gan gynnwys slyri, gael ei wasgaru ddim ond 6m oddi wrth ddŵr wyneb, ond rhaid wedyn nodi'r tir sydd o

fewn 6m i ddŵr wyneb ar y Map Risg. Argymhellir bod y manau hyn yn cael eu nodi trwy groeslinellu.



Cam 3. Bydd angen i chi nodi a lliwio (mewn oren) yr ardaloedd lle mae angen i chi asesu'r risgiau o wasgaru tail organig, megis ardaloedd o bridd tywodlyd neu fas, tir â llethr o fwy na 12 gradd, ardaloedd â draeniau tir (heblaw pibellau anhydraidd sydd wedi'u selio). Mae angen nodi tir sydd â risg dŵr ffo isel ac a ddefnyddir i gyfrifo gofynion storio slyri hefyd ar y map - mewn lliw o'ch dewis.

Rydych chi bellach wedi cwblhau popeth y mae'n rhaid ei wneud ar gyfer y Map Risg. Os dymunwch, gallwch nodi unrhyw ardaloedd eraill lle na chaniateir taenu, megis traciau ac adeiladau, neu gynnwys manau lle gellir taenu dan amodau penodol yn unig neu lle dylid cyfyngu ar y cyfraddau.

Cofiwch fod yn rhaid i chi gofnodi newidiadau ar y Map Risg o fewn tri mis.

Am ragor o ganllawiau, ewch i <https://www.llyw.cymru/rheoliadau-adnoddau-dwr-rheoli-llygredd-amaethyddol-cymru-2021-canllawiau-ar-gyfer-ffermwyw>

Meddalwedd Cofnodion Fferm WLBP ar-lein ar gael i aelodau WLBP (FAWL, Cynllun Llaeth, ac Organig Cymru)



- Modd cysylltu gyda BCMS a EID Cymru
- Cofnodion diadell a buches
- Meddyginiaethau a thriniaethau (gan gynnwys casglu defnydd gwrthfotig)
- Diweddarau'r meddalwedd yn digwydd yn awtomatig
 - Lleihau gwaith papur
 - Llyfr Rheolaeth FAWL
 - Cynllun Iechyd
 - Cefnogaeth am ddim



Cofrestrwch ar: <https://farmrecords.wlbp.co.uk/WLBP/Default.aspx>
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: 01970 636688 neu healthplan@wlbp.co.uk